# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 13 Mehefin, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr I.R. Buckley, C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr E. Goodjohn, C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), R.R. Thomas a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai, 2023 fel cofnod cywir yn amodol ar nodi'r pwyntiau a ganlyn a godwyd gan y Cynghorydd M. Cowpe:

(1) Cofnod rhif 24 – Cyflwyniad Llais Cymru – Pwynt bwled 5 – Tudalen 4. Disodli'r gair "disodlwyd" gyda "yn ychwanegol at" i adlewyrchu'n fwy cywir bod Proses Gwyno'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn dal i fod ar waith,

(2) Cofnod rhif 25 – Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad – Pwynt bwled 8 – Tudalen 6. Disodli'r ail ddefnydd o'r gair "comment" ag "adweithiau" i wahaniaethu'n fwy cywir rhwng y sylwadau negyddol a'r ymatebion cadarnhaol a geir trwy'r sianel cyfryngau cymdeithasol.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD STRATEGAETH DEMENTIA CAERDYDD A BRO MORGANNWG –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys y cyflwyniad diweddaru a diolch i gydweithwyr GIG Cymru am eu hamser.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad diweddaru ar Strategaeth Dementia Caerdydd a Bro Morgannwg 2018 – 2028 a'i weledigaeth y dylai poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg fod yn ymwybodol o ddementia a lleihau ei risg o ddementia erbyn 2028.

EITEM AGENDA 5. CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi Cyfeirnod y Cabinet a Chalendr Perfformiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023/24 sydd wedi'i atodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyhoeddi Amcanion Llesiant blynyddol, cadw perfformiad yn cael ei adolygu ac ymgynghori ac adrodd ar ei berfformiad trwy hunanasesiad blynyddol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

EITEM AGENDA 6. CYNLLUN ARDAL AR Y CYD (CGC) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi ymrwymiadau'r Cydgynllun Ardal fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad eglurhaol a Chynllun Ardal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2023-28 sydd ynghlwm.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried yr adroddiad eglurhaol a'r cynllun atodedig i fodloni rhwymedigaeth statudol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i baratoi Cynllun Ardal ar y Cyd a chydweithio gyda'r Cyngor fel partner statudol arweiniol ar ofynion a nodwyd yn Asesiad Anghenion Poblogaeth y rhanbarth.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 Y GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLID nodi Adroddiad Blynyddol 2023 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro a'r gwaith a wnaed i gefnogi rhieni/gofalwyr a darparwyr ym Mro Morgannwg.

(2) BOD y Pwyllgor yn derbyn diweddariad blynyddol pellach ar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i'r adroddiad eglurhaol ac Adroddiad Blynyddol 2023 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro sydd wedi'i atodi, er mwyn sicrhau bod y maes pwysig o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei oruchwylio'n effeithiol.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael ei ddiweddaru o ran y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

EITEM AGENDA 8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O WASANAETHAU A GOMISIYNIR I OEDOLION AG ANGEN GOFAL A CHYMORTH (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r heriau parhaus a'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir.

(2) BOD y Pwyllgor yn derbyn Adolygiad Blynyddol pellach o Wasanaethau a Gomisiynir ar gyfer Oedolion ag Angen Gofal a Chymorth.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad, rhoi cyfle i'r Aelodau oruchwylio'r swyddogaeth statudol allweddol.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i dderbyn diweddariad blynyddol er ystyriaeth a gwybodaeth.